

## JONES, ROWLAND (1722 - 1774), ieithydd

**Enw:** Rowland Jones  
**Dyddiad geni:** 1722  
**Dyddiad marw:** 1774  
**Plentyn:** Rowland Jones  
**Rhiant:** John Williams  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** ieithydd  
**Maes gweithgaredd:** Ysgolheictod ac leithoedd  
**Awdur:** William Rowlands

bedyddiwyd ef yn Llannor yn 1722; mab John Williams, Bachellyn, plwyf Llanbedrog, Sir Gaernarfon, amaethwr cefnog a chyfreithiwr galluog, a gadwai ei swyddfa yn Bachellyn. Tybir i'r mab dderbyn ei addysg fore yn ardal Llannor ac wedyn yn ysgol Botwnnog, a'i ddwyn i fyny'n gyfreithiwr yn swyddfa ei dad. Yn gynnari ar ei oes, symudodd i Lundain, ac yno bu'n ymarfer fel cyfreithiwr am rai blynnyddoedd a dyfod yn aelod o'r Inner Temple. Yno hefyd priododd foneddiges gyfoethog, a bu iddynt dri o blant - dwy ferch ac un mab. Trwy etifeddu tiroedd ei dad, a thrwy briodas, daeth Rowland Jones yn gyfoethog iawn ac yn berchen stad y Weirglodd Fawr (Broom Hall) ym mhwlwyf Abererch, Sir Gaernarfon. Bu ei fab yntau, Rowland Jones, farw yn ddibriod 2 Rhagfyr 1856, a daeth yr etifeddiaeth yn eiddo i'w nai, William Jones, Ysgubor Hen, Eifionydd. Yn 1859 bu cyngwyns yn y ganghelllys er ceisio gwrrthbrofi hawl teulu William Jones i etifeddiaeth Broom Hall; ceisiwyd profi mai mab i William Jones, Crugan, ger Llanbedrog, ydoedd Rowland Jones, ac nad mab i John Williams, Bachellyn.

Yn ei ddydd, ystyrid Rowland Jones yn ysgolhaig mawr ac yn ieithydd o fri. Yr oedd yn bur hyddysg mewn ieithoedd, yn enwedig Lladin a Groeg, ac ysgrifennodd amryw lyfrau ar ieitheg. Yn ei lyfr *The Origin of Language and Nations*, 1764, ffurfiodd ddamcaniaeth ynglŷn â tharddiad geiriau, a daliad y gellid tarddu geiriau o fân wreiddiau unsillaflwg, ac mai'r iaith Geltig oedd yr iaith gyntefig; yn ei eiriadur y mae'n olrhain tarddiad geiriau Saesneg, Lladin, Groeg, a Chymraeg i'r un ffynhonnell Geltig. Bu ganddo dylanwad mawr ar ddamcaniaethau ieithyddol Dr. William Owen Pughe, yn enwedig ar eiriadur hwnnw, a chredir mai geiriadur Rowland Jones ydoedd sail geiriadur Cymraeg **Pughe**.

Cyhoeddodd y llyfrau a ganlyn yn ymwneud ag ieitheg: (1) *The Origin of Languages and Nations. Hieroglyphically, Etymologically, and Topographically defined and fixed, after the Method of an English, Celtic, Greek, Latin, English Lexicon*, 1764. (2) *Hieroglyphic: or a Grammatical Introduction to an Universal Hieroglyphic Language, consisting of English signs and voices ...*, 1768. (3) *The Philosophy of words in two dialogues between the Author and Crito*, 1769. (4) *The Circles of Gomer, or, an Essay towards an Investigation and Introduction of the English as an Universal Language ...*, 1771. (5) *The 10 Triads; or the Tenth Muse, wherein the origin, nature, and connection of the Sacred Symbols, Sounds, Words, Ideas are discovered*, 1773. Bu farw tua diwedd 1774.

### Awdur

William Rowlands

### Ffynonellau

*Enwogion Sir Gaernarfon* (1922), 207-9

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Y Brython*, I, i, 20

W. Rowlands, *Llyfruddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869)

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1897, 68

*Y Drych*, 23 Mai 1857

*Yr Herald Cymraeg*, 1856-7

*Baner ac Amserau Cymru*, 1 Ebrill 1857

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 331

*Oxford Dictionary of National Biography*

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [46979097](#)

Wikidata: [Q7372152](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

X

Rowlands, W., (1953). JONES, ROWLAND (1722 - 1774), ieithydd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-ROW-1722>

ClipWriad

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Noddfa gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government